

Gŵyl Croeso/Croeso Event: 29/02/20 ac 01/03/20
Ffenestr Siop/Stondin Marchnad wedi'i Haddurno Orau ar
Thema Gymreig

Amodau a Thelerau Cymryd Rhan

'Darparwr y Gystadleuaeth' yw Digwyddiadau Arbennig, Cyngor Abertawe, Ystafell 136, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

Pwy all gymryd rhan?

- Gall pob busnes yng nghanol dinas Abertawe gymryd rhan, gan gynnwys stondinau ym Marchnad Abertawe. Ac eithrio gweithwyr a theuluoedd agos darparwr y gystadleuaeth.
- Mae Darparwr y Gystadleuaeth yn cadw'r hawl i ofyn i enillwyr ddarparu prawf hunaniaeth.

Pryd i gystadlu

- Mae'r gystadleuaeth yn dechrau am 11am ddydd Sadwrn 29 Chwefror 2020 ac yn dod i ben am 4pm ddydd Sul 1 Mawrth 2020. Rhaid i'r cystadleuydd lanlwytho llun o'u ffenestr siop/stondin i special.events@abertawe.gov.uk rhwng 11am ddydd Sadwrn 29 Chwefror a 5pm ddydd Llun 2 Mawrth. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- Mae'n rhaid i gystadleuwyr gynnwys enw'r siop/stondin, enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yn yr un e-bost â'r llun.

Nifer y ceisiadau a ganiateir

- Caniateir un cais fesul siop/stondin

Dewis a hysbysebu'r enillydd

- Yr enillydd fydd y dyluniad a ddewisir gan Robert Francis Davies Aelod y Cabinet dros Ddatblygu ac Adfywio.
- Mae penderfyniad darparwr y gystadleuaeth yn derfynol ac ni fydd darparwr y gystadleuaeth yn gohebu mewn unrhyw ffordd ynghylch y canlyniad neu'r penderfyniad y mae wedi'i wneud mewn cysylltiad â'r hyrwyddiad.
- Cyflwynir y wobwr ddydd Gwener 6 Mawrth.
- Hysbysir yr enillydd drwy e-bost o fewn deuddydd o ddyfarnu'r wobwr.
- Gwobrwyir y person/siop a enwir yn y cais.

Y Wobr

- 5 wythnos o hysbysebu am ddim ar y Sgrîn Fawr yn Sgwâr y Castell, Abertawe. Caiff yr hysbysebion eu dangos 8 gwaith y dydd, a chaiff pob sleid

ei dangos am 10 eiliad a phob fideo am 30 eiliad. Gwerth y wobwr ariannol yw dros £500 (ni ellir cyfnewid y wobwr am arian parod).

- Mae'n rhaid i'r enillydd ddarparu'r hysbyseb a'r gwaith celf a chaniatáu 7 niwrnod i'w lanlwytho ar system weithredu'r Sgrîn Fawr.
- Mae opsiwn i ddangos hysbyseb llonydd neu gynnwys fideo.
- Mae'n rhaid i'r fformat fod fel yr hyn a ddisgrifir yn 'Sleid Fformat Sgrîn Fawr' a atodir i'r Amdoau a'r Telerau hyn.
- Rhaid hawlio/defnyddio'r wobwr o fewn 90 niwrnod.

Amodau a Thelerau Pellach

- Nid yw darparwr y gystadleuaeth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am wall, hepgoriad, amhariad ar ddarllediad neu fethiant i'r llinell gyfathrebu
- Os nad yw'r wobwr ar gael, am ba reswm bynnag, mae darparwr y gystadleuaeth yn cadw'r hawl i newid y wobwr am wobwr o'r un gwerth neu fwy.

Hawlfraint, ildio hawl

- Oherwydd bod darparwr y gystadleuaeth yn dyfarnu'r wobwr i'r enillydd, mae'r enillydd trwy hyn yn caniatáu i'r llun a gyflwynwyd ymddangos mewn cyhoeddusrwydd ar ôl y digwyddiad ac wrth hyrwyddo'r digwyddiad yn y dyfodol, ac ni fydd hawl gan yr enillydd gael ffi am y fath ddefnydd.